Llandudoch

Cynllun Gweithredu

CYNLLUN GWEITHREDU LLANDUDOCH

Paratowyd gan

GYMUNED LLANDUDOCH

Mewn Cydweithrediad â

Darluniadau gan Gill Martinez, Llandudoch

CYNNWYS

Cyflwyniad a'r Ffordd Ymlaen

Cefndir i'r Cynllun Gweithredu

Cymuned Llandudoch

Cynllun Gweithredu:

1. Cymuned
2. Treftadaeth a Diwylliant
3. Amgylchedd
4. Twristiaeth, Busnes a Gwaith
5. Trafnidiaeth a Ffyrdd

Atodiad 1: Adborth o'r ymarferiad 'wal syniadau'

CAFODD Y CYNLLUN GWEITHREDU HWN EI GYTUNO MEWN CYFARFOD CYHOEDDUS GYNHALIWYD AR FEHEFIN 18 2003, AR ÔL DOSBARTHU'R CYNLLUN I BOB AELWYD YN Y GYMUNED.

CYFLWYNIAD A'R FFORDD YMLAEN

PROJECT PART-FINANCED BY THE EUROPEAN UNION

Bwriad y Cynllun Gweithredu hwn yw disgrifio materion a syniadau a nodwyd gan y trigolion a fyddai, o'u gweithredu dros y blynyddoedd nesaf, yn gwella ansawdd bywyd y gymuned trwy hyrwyddo golwg ac economi'r ardal, yn cynnwys twristiaeth ac amaeth, a chryfhau ac amrywio atyniadau ar gyfer trigolion ac ymwelwyr.

Wrth baratoi'r Cynllun Gweithredu hwn ar y cyd â'r gymuned, sy'n pwysleisio'r buddion o ddilyn dulliau gweithredu integreiddiedig, y gobaith yw y bydd modd denu cymorth a chyllid gan y sectorau cyhoeddus a phreifat er mwyn gweithredu'r amryw fentrau a ddisgrifir ynddo.

Mae'r amrywiol gyfranwyr yn sylweddoli mai'r ffordd orau o fwrw `mlaen â'r broses yw drwy drafodaeth a phartneriaeth gan fod llawer o'r cynigion yn ymwneud â thir neu adeiladau sy'n eiddo i nifer o gyrff ac unigolion, diddordebau amrywiol a gwahanol ffynonellau cyllid. Er bod rhai o'r cynigion yn gymharol fach, maent yn debyg o fod o fudd sylweddol i amryw o grwpiau o fewn y boblogaeth breswyl. Mewn rhai o'r achosion eraill mae'r newidiadau sy'n cael eu hawgrymu ar raddfa tipyn mwy ac o bosibl gallent gael effaith sylweddol ar amrywiaeth ehangach o ddiddordebau lleol.

Y gobaith yw bydd y prosiectau a ddisgrifir yn yr adroddiad hwn yn cael eu gwireddu mor gyflym ag sy'n ymarferol gyda'r amryw bartneriaid yn cydweithio i gynllunio, ariannu a gweithredu cynlluniau. Mae'r Cynllun Gweithredu yn gwahodd darpar bartneriaid i wireddu ei wahanol gynigion.

Clustnodwyd swm sylweddol o gyllid ar gyfer yr ardal o dan gynllun Amcan 1 yr Undeb Ewropeaidd a'r gobaith yw y bydd modd defnyddio'r arian yma i gyllido nifer o'r prosiectau a nodwyd. Awgrymir fod y gymuned yn gwneud cais am Swyddog Cymunedol o dan raglen Amcan 1 (Blaenoriaeth 3), i weithio o fewn yr ardal a helpu i wireddu cynigion y Cynllun Gweithredu.



CEFNDIR Y CYNLLUN GWEITHREDU

Ym mis Tachwedd 2002, penderfynodd Cyngor Bro Llandudoch wahodd PLANED (Rhwydwaith Gweithredu Menter a Datblygiad Sir Benfro - Pembrokeshire Local Action Network for Enterprise and Development) i gydweithio i sefydlu Fforwm Cymunedol yn cynnwys trigolion lleol, grwpiau gwirfoddol a chymdeithasau lleol er mwyn paratoi Cynllun Gweithredu Cymunedol. Pwysleisiodd y gwahoddiad gyfranogiad gan bob oedran a chynrychiolwyr o wahanol elfennau o'r gymuned.

Trefnwyd cyfres o *Ymarferion Gweledigaeth Cymunedol* yn Llandudoch rhwng mis Tachwedd a Rhagfyr 2002 er mwyn nodi cryfderau, gwendidau, cyfleoedd a sgiliau o fewn y gymuned. Yna cynhaliwyd *Gweithdai Cynllunio Gweithredu* gyda'r nod o gynhyrchu'r Cynllun Gweithredu hwn i'w ddosbarthu i'r gymuned.

Roedd "*Wal Syniadau*" yn y pentref rhwng Mawrth ac Ebrill 2003 yn fodd i'r holl drigolion gyfrannu syniadau ar gyfer y Cynllun Gweithredu (gweler Atodiad 1).

CYMUNED LLANDUDOCH

Mae Llandudoch yn bentref mawr ar ochr ddeheuol Afon Teifi tua milltir i lawr o Aberteifi. Cyngor Cymuned Llandudoch sy'n gyfrifol am ardal sy'n ymestyn ar hyd lan aber y Teifi i'r môr, yn cynnwys pentrefi bach Cippyn a Poppit.

Gellir disgrifio pentref Llandudoch fel amffitheatr gyda'r afon yn ffurfio'r llwyfan a'r tai yn gynulleidfa ar hanner cylch o fryniau sy'n codi'n serth o lan yr afon. Mae'n lleoliad godidog ac mae'r afon yn rhan bwysig o dreftadaeth yr ardal.

Yn agos at ganol y pentref mae adfeilion abaty Normanaidd ger pwll melin sy'n llawn hwyaid, melin ddŵr sy'n dal i weithio ac eglwys y plwyf. Tu hwnt i'r abaty, mae tir eglwys heb ei ddatblygu yn cadarnhau naws wledig y pentref. Mae'r Stryd Fawr yn troelli i fyny'r rhiw ac ar ei hyd ceir nifer o dai hardd iawn.

Mae hanes hir y pentref yn glwm i'r abaty, amaeth, pysgota a mordwyo. Erbyn heddiw mae'r economi yn un cymysg, gyda thwristiaeth yn cynrychioli'r prif "ddiwydiant". Ymhlith yr atyniadau ar gyfer ymwelwyr mae Tywod Poppit, traeth eang a diogel tua dwy filltir o'r pentref, a Llwybr Arfordir Sir Benfro sy'n dechrau yn Poppit ac yn ymestyn 180 milltir i Lanrhath (Amroth) yn y de. Mae ffin Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro tua milltir o'r pentref.

Mae tri tafarn yn y pentref, gydag un arall yn Poppit, a phob un yn gwneud bwyd. Yn ogystal, mae bwyty, ystafell de, siop pysgod a sglodion gydag ardal fwyta, a café ar draeth Poppit. Dau brif fusnes y pentref yw gwerthwr nwyddau adeiladu a garej fawr lwyddiannus. Mae gweddill y gymuned fusnes yn cynnwys siop (mini farchnad), Swyddfa Post, sawl adeiladwr, nifer o ffermydd, melin ddŵr (cynhyrchu blawd) ac amryw fusnesau bach eraill.

Mae dau gapel Bedyddwyr ac un capel yr Annibynwyr yn y pentref a chapel arall gan y Bedyddwyr yng Nghippyn. O fewn eglwys y plwyf (yr Eglwys yng Nghymru) mae carreg Ogam gain, gydag arysgrif mewn Lladin a'r hen iaith Ogam Wyddeleg, a fu'n allweddol i gynorthwyo amryw academyddion, yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg, i ddehongli iaith Ogam.

Ar hyn o bryd mae ysgol y pentref yn cael ei hymestyn fel rhan o raglen rhesymoli h.y. cau ysgolion llai cylchynol.

Y CYNLLUN GWEITHREDU

1. CYMUNED

Sylwadau
Mae'r gymuned wedi clustnodi nifer o safleoedd ac adeiladau cymunedol a fyddai'n elwa o raglen ddiweddaru/datblygu. Awgrymir datblygu Gerddi Alexandra yn ardal hamdden ddeniadol a fyddai'n cynnwys y cae pêl-droed presennol ac adnoddau chwaraeon posib eraill.

Mae'r Cyngor Cymuned eisoes yn cydweithio â'r awdurdodau perthnasol ar gynlluniau i hyrwyddo'r Stryd Fawr yn cynnwys cynnig i osod ceblau o dan y ddaear. Ar hyn o bryd mae gwaith ar y gweill i wella palmentydd fel rhan o'r fenter "Llwybrau diogel i ysgolion" ac i ymchwilio safleoedd ar gyfer camerâu CCTV.

Awgrym arall yw y dylai'r gymuned geisio ailsefydlu, ailddatblygu ac ail-lansio'r Cyswllt Gefeillio â Tredarzek yn Llydaw trwy gymell ystod ehangach o bobl i gydweithio i "gyfnewid syniadau diwylliannol, twristaidd, cymdeithasol ac economaidd" ac i "datblygu dealltwriaeth, parch a chyfeillgarwch" rhwng y ddwy gymuned. (Gohiriwyd yr ymweliad y llynedd oherwydd y clwy traed a'r genau). Mae potensial o ran rhannu syniadau da e.e. ysgol, a welwyd ar daith gynharach, wedi'i phaentio mewn lliwiau llachar. Mae'r Gymraeg a Llydaweg yn rhannu tua 800 o eiriau; ac mae hefyd eglwys Sant Dogfael yn Llydaw.

Nodwyd bod rhaid rhoi blaenoriaeth i wella ffyrdd o gyfathrebu. Mae'r gymuned wedi sefydlu gwefan gyda pherson wedi ei ddynodi i'w diweddaru. Cynigiwyd sefydlu cylchlythyr cymunedol a fyddai'n cynnig cyfle i gyfleu pob math o wybodaeth i bentrefwyr, yn ogystal ag i ymwelwyr. Gellid gosod blychau mewn lleoliadau allweddol e.e.y Swyddfa Bost, siop, tafarnau ac ati er mwyn galluogi pentrefwyr i gyflwyno erthyglau ar gyfer y rhifyn nesaf. Yn ogystal, gallai "Cyfnewid Sgiliau" fod yn rhan o'r trefniant. Byddai modd postio'r cylchlythyr ar y wefan hefyd a chynnwys ffurflen ar-lein i bostio erthyglau i'r rhifyn nesaf. Byddai'r cylchlythyr yn ddefnyddiol i rannu gwybodaeth ac i gynnwys y newyddion diweddaraf am ddatblygiadau a digwyddiadau. Gellid defnyddio'r cylchlythyr i wahodd cynrychiolwyr o'r grwpiau cymunedol i fynychu cyfarfodydd rheolaidd y Cyngor Cymuned gydol y flwyddyn.

Cynigion

- **Gerddi Alexandra –** paratoi cynllun mwynderau a rhaglen hyrwyddo yn ymgorffori awgrymiadau o'r ymarferiad Wal Syniadau megis cais am ardal chwarae ac ymchwilio i ffynonellau cyllid
- **Cae pêl-droed** – bydd cyfarfod yn cael ei drefnu i drafod dyfodol y cae. Y cyngor sir sy'n berchen y tir a byddai angen prydles o 21 mlynedd petai'r gymuned ddatblygu'r adnodd. Cefnogi ffurfio Cymdeithas Chwaraeon.

- **Y Pinog** - awgrymir datblygu'r ardal fel safle ar gyfer y Clwb Rhwyfo, ond gan gofio ei bod yn ardal fwydo bwysig i adar.
- **Adeiladau cymunedol** -
    - ***Neuadd yr Eglwys*** - ymchwilio i ffynonellau cyllid i wella'r gegin, y toiledau, y gwresogi a'r mynediad i'r anabl yn Neuadd yr Eglwys.
    - ***Neuadd Goffa*** - mae gwelliannau wedi cael eu gwneud ond mae yna botensial i hyrwyddo pellach. Hysbysebu cyfleusterau ieuenctid da - Clwb Ieuenctid yn cyfarfod ar nos Iau
- **Gefeillio -** ailsefydlu a chryfhau'r cysylltiad â Llydaw. Mae'r Cyngor Cymuned yn bwrw ati i ailsefydlu'r Pwyllgor Gefeillio.
- ***CCTV*** - mae'r Cyngor Cymuned yn ymchwilio i'r posibilrwydd o osod camerâu TCC (teledu cylch cyfyng) a mesurau diogelwch eraill.
- **Llif oleuadau** – posibilrwydd o lifoleuo'r abaty maes o law
- **Gwefan** - gwaith ar y gweill i ddiwygio'r wefan a'i chynnal yn rheolaidd – y gobaith yw y bydd hyn yn denu ymwelwyr i ddychwelyd. Cynnwys newyddion diweddaraf gan gyrff megis Hanes Llandoch. Y cyfeiriad yw: www.
- **Cylchlythyr cymunedol** – er mwyn cynorthwyo i sefydlu Cylchlythyr Cymunedol mae PLANED wedi trefnu gweithdy cylchlythyr cymunedol a bydd yn cynorthwyo i ddechrau cyhoeddi. Grwp cylchlythyr lleol i gytuno ar fanylion megis amlder cyhoeddi, dosbarthu ac ati
- **Pobl ifanc –** ceisio cymell y Clwb Ieuenctid i gyfrannu at y wefan a'r cylchlythyr.
- **Clwb Achub ar y Môr** – er mwyn cynnal llwyddiant y clwb rhaid annog aelodau ifanc y gymuned i ymuno i ddysgu sgiliau newydd ac i fod yn swyddogion diogelwch arfaethedig ar y traeth yn ystod tymor yr haf.
- **Cymuned Ddysgu Llandudoch** – ymchwilio i'r posibilrwydd o ddarparu hyfforddiant lleol ar gyfer sgiliau traddodiadol ac ymarferol er mwyn cefnogi nifer o'r gweithgareddau a glustnodwyd yn y Cynllun Gweithredu.

2. TREFTADAETH A DIWYLLIANT

Sylwadau

Mae aelodau'r gymuned yn ymchwilio i Hanes Lleol er mwyn cynhyrchu taflen ar y pentref. Bydd y daflen yn helpu i grynhoi atgofion pobl leol, gan greu cofnod ar gyfer cenedlaethau i ddod ac fe fydd o ddiddordeb i bobl leol ac i ymwelwyr. Dylai gwefan y pentref gynnwys diweddariad rheolaidd o waith y grŵp. Y nod fydd cynnal ystod o weithgareddau, yn cynnwys datblygu safle arddangos parhaol ac arddangosfa at ddefnydd mudiadau lleol. Bwriedir casglu deunydd ar gyfer arddangosiadau a'i gadw fel adnodd i'w ddangos mewn digwyddiadau pentrefol - e.e. Eisteddfod leol, Carnifal, Regata.

Lansiwyd menter Hanes Llandoch yn Hydref 2000 er mwyn creu Canolfan Ymwelwyr (Prosiect y Coetiws) ar gyfer yr Abaty Normanaidd, y pentref a'r ardal gyfagos. Mae astudiaeth dichonolrwydd a gomisiynwyd gan y Cyngor Cymuned a Menter Preseli wedi nodi cynigion amlinellol ar gyfer sefydlu canolfan o'r fath.

Gydag annogaeth CADW (gwarcheidwad yr Abaty), Cyngor Cymuned Llandudoch, Menter Preseli a Chyngor Sir Penfro, sefydlwyd Hanes Llandoch fel ymddiriedolaeth, sef cwmni sy'n glwm i warant gyda statws elusen. Mae Hanes Llandoch wedi derbyn grant gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri i gynllunio canolfan ymwelwyr, a chynnig o grant sylweddol pellach ar gyfer costau adeiladu petai'r cam cynllunio, sydd ar y gweill ar hyn o bryd, yn cael ei gwblhau'n llwyddiannus. Amcanion Hanes Llandoch, fel y'i nodir yn ei gyfansoddiad, yw "cynnal, trwsio, adfer a gwella pentref Llandudoch a'r ardal er lles y cyhoedd".

Mae'r Eisteddfod wedi ei hen sefydlu a chaiff ei gwerthfawrogi'n fawr yn lleol ond eto mae angen ei chryfhau a'i hadfywio. Mae trigolion wedi awgrymu fod angen sicrhau cystadleuwyr, beirniaid a chyfeilyddion o'r safon uchaf, fydd yn ei dro yn cymell pobl o bob oedran i gymryd rhan. Gellid ystyried ehangu sgôp y gweithgareddau i gynnwys pethau megis Celf a Hanes gan y byddai'n symbylu llawer o ddiddordeb mewn diwylliant lleol.

Mae'r gymuned wedi pwysleisio pwysigrwydd llwybrau treftadaeth o fewn Llandudoch ac yn awgrymu cydweithio â chymunedau cyfagos megis Trewyddel a Glanrhyd, fel bod y rhwydwaith o lwybrau agorwyd, ac sy'n cael eu cynnal a'u cadw, gan Llwybrau Llandudoch yn dod yn rhan o rwydwaith ehangach. Gellid cysylltu â llwybrau Carn Ingli er mwyn creu llwybr tir mawr rhwng Llandudoch, Nanhyfer a Threfdraeth.

Cynigion

- **Bwrw mlân i gwblhau prosiect y Coetiws -** mae eisoes wedi derbyn cymeradwyaeth y pentref mewn cyfarfodydd cyhoeddus ac ymgynghoriadau.
- **Trefnu cyfarfodydd hanes lleol yn rheolaidd** - er mwyn trafod pethau o ddiddordeb, gan ddechrau gydag arddangosfa "Hen Llandudoch".
- **Ffynnon Sanctaidd** - testun ymchwil posib ar gyfer y grwp Hanesyn y dyfodol.
- **Cyhoeddi taflen ddwyieithog broffesiynol** a chyhoeddi ail daflen am yr Abaty yn unig.
- **Datblygu safle arddangos parhaol** - yn y Coetiws (Canolfan Ymwelwyr) ac un man cyhoeddus arall.
- **Arddangosiadau** - datblygu cronfa o arddangosfeydd / cyflwyniadau Cymraeg a Saesneg addas i'w defnyddio yng nghyfarfodydd gwahanol fudiadau (e.e Merched y Wawr, Clwb Gwragedd, Clwb Ieuenctid) ac hefyd ysgol y pentref. Byddai rhaglen barhaus o arddangosfeydd yn sicrhau bod pentrefwyr ac ymwelwyr bob amser yn gallu cael hyd i wybodaeth hanesyddol lleol. Defnyddio ffenestri siopau gwag cyfredol, tafarnau, eglwysi, capeli a neuaddau yn rhan o'r rhaglen o arddangosfeydd.
- **Memorabilia sain a fideo** - defnyddio offer sain a fideo i gasglu atgofion pobl sydd wedi byw yn y pentref drwy gydol eu bywydau, gan ddefnyddio'r Clwb Ieuenctid a'i gamera fideo, ond byddai angen rhoi cymorth i gynhyrchu'r ffilm. Ceisio cymell yr ysgol i gynnal project.
- **Lluniau hanesyddol** - gellid creu banc o luniau hanesyddol digidol gyda deunydd dadansoddol, neu fe fydd yr holl atgofion a dehongliadau gwerthfawr sydd yn glwm â nhw yn mynd i ebargofiant.
- **Creu map o'r pentref** - mae'r trigolion wedi awgrymu y gellid creu Map Pentrefol yn manylu ar a dehongli safleoedd o ddiddordeb hanesyddol

penodol. Gellid tynnu sylw at enwau lleoedd diddorol, e.e. y Pinog a rhai enwau tai e.e. enwau llongau yn y ganrif ddiwethaf.

- **Eisteddfod Leol** – cryfhau'r gefnogaeth i Eisteddfod y pentref fel ei bod yn datblygu yn ddigwyddiad o bwys ac yn ŵyl gelfyddydol a diwylliannol.
- **Archwiliad Archaeolegol Hanesyddol Cambria -** Nodi, agor a dehongli safleoedd hanesyddol allweddol.
- **Llwybrau Treftadaeth** – creu llwybr treftadaeth yn y pentref er mwyn tywys ymwelwyr o gwmpas lleoliadau hanesyddol yn y pentref a datblygu cysylltiadau â phentrefi cyfagos. Unwaith fydd y cysylltiadau yn eu lle a'r llwybrau ar agor, anelu i gyhoeddi gyhoeddi llyfryn cerdded.
- **Pantomeim Blynyddol** – trefnu pantomeim blynyddol er mwyn rheiny sydd â diddordeb, yn arbennig pobl ifanc, a cheisio datblygu Clwb Drama Ieuenctid.

3. AMGYLCHEDD

Sylwadau

Yn gyffredinol, teimlwyd y byddai gwella golwg y pentref yn helpu'r diwydiant twristiaeth. Gwnaed llawer o waith hyrwyddo yn ddiweddar ond mae rhagor i'w wneud eto. Cytunwyd fod angen ymchwilio ymhellach er mwyn ystyried cyfleon i hyrwyddo'r afon fel cyfleuster ac atyniad, tra'n parchu ei gwerth amgylcheddol arbennig. Dylid comisiynu astudiaeth i gyflawni hyn. Dylid ystyried Cynllun Rheoli Aber y Teifi TEEMI a'r cynigion Amcan 1 ar gyfer yr aber.

Cynigion

- **Cynllun Hyrwyddo'r Pentref ac Eiddo Busnes** – cymell trigolion lleol a busnesau i gymryd balchder yng ngolwg allanol eu hadeiladau. Eu hannog i osod basgedi crog a phlanhigion i fywiogi'r pentref. Gellid ailsefydlu cystadleuaeth *Pentref yn ei Ogoniant* er mwyn annog y pentre cyfan i gymryd balchder ar y cyd yng ngolwg yr ardal.
- **Goleuo -**er mwyn osgoi llygredd dylid ystyried cynllun a math o oleuo fel rhan o unrhyw gynllun hyrwyddo

- **Hysbysfyrddau Dehongli** – yn y pentref ac ar hyd yr afon - gan roi gwybodaeth allweddol am hanes a bywyd gwyllt yn yr ardal a sut i ddod o hyd iddo (yn debyg i'r rhai yng Nghilgerran). Gellid eu gosod mewn mannau allweddol yn y pentref ac ar hyd y llwybrau newydd ger yr afon.
- **Llwybrau Llandudoch** – eisoes yn gwneud llawer o waith ond y nod tymor hir yw creu dewis o `lwybrau cerdded' yn y pentref a thu hwnt, wrth gydweithio'n agos â chymdogaethau cyfagos. Wedyn byddai cerddwyr arfaethedig yn gallu dewis teithiau addas ar gyfer eu hanghenion/dymuniadau. Cynhyrchu llyfryn yn cynnwys nodiadau am hanes a chwedloniaeth yn esbonio mannau o ddiddordeb ar y teithiau.
- **Nodi hen lwybrau coll** (hawliau mynediad wedi'u blocio neu'n anodd eu troedio) a chysylltu â pherchnogion tir / awdurdodau lleol / parciau cenedlaethol er mwyn ymchwilio i'r posibilrwydd, a'r amserlen, i'w hailagor.

- **Llwybrau Cerdded o gwmpas Llandudoch** - gosod mapiau ar hysbysfyrddau o gwmpas y pentref, gyda mapiau llwybrau a llyfrynnau ar gael mewn siopau, tafarnau a bythynnod gwyliau.
- **Llwybr Arfordir Sir Benfro i ddechrau ym maes parcio Llandudoch** - yna byddai ymwelwyr yn cael eu denu i ddechrau cerdded ar hyd yr arfordir o Aberteifi a Llandudoch. Cydweithredu â mudiadau ac awdurdodau sy'n awyddus i gysylltu llwybrau ar hyd yr afon rhwng sir Benfro a Cheredigion.

- **Gwella llwybrau ar hyd yr afon** - yn amodol ar ganlyniadau astudiaeth dichonolrwydd a thrafodaethau gyda'r awdurdodau perthnasol. Mae'r hen lwybr o Aberteifi wedi dirywio ac yn amhosibl ei ddilyn.
    - **Ymchwilio i ddatblygiad llwybr rhwng Glanteifion a Thraeth Poppit** – byddai yn golygu cael hawl/caniatâd i alluogi ymwelwyr i gerdded i Poppit a chysylltu â Llwybr Arfordir Sir Benfro. Byddai'n hwyluso mynediad ar droed i'r corsydd a'r twyni (sef SSSI). Nod y project yw darparu cyfleuster cymunedol a denu twristiaid i'r pentref. Bydd rhaid cymryd camau i ddiogelu bywyd a phlanhigion gwyllt.
    - **Llwybr rhwng Aberteifi a Poppit** - byddai'n atyniad twristaidd o bwys gan ddarparu mynediad i safleoedd hanesyddol a gwyddonol. Byddai hefyd yn galluogi adaregwyr lleol i drefnu teithiau tywys ar gyfer ymwelwyr. Erbyn hyn mae'n rhan o Strategaeth Wledig Cyngor Sir Penfro.
    - **Arwyddion** – mae angen gosod arwyddion at ac ar yr afon. Byddai hyn yn dynodi llefydd o ddiddordeb ac atyniadau sydd ar gael yn y pentref e.e. llwybrau cerdded, cyfleusterau a nodweddion arbennig megis y Felin, yr Abaty a'r llwybrau cerdded (Gellir dysgu gwersi o'r arwyddion da a'r datblygiad glan yr afon yng Nghilgerran). Y bwriad fydd gwella defnydd o adnoddau lleol a thynnu sylw at atyniadau ar gyfer ymwelwyr. Dylid hefyd gosod arwyddion ar hyd yr afon yn nodi cyflymder cychod (4 milltir yr awr) a chyfyngu mynediad i rai mathau o gychod (cychod jet a sgiwyr). Byddai'n diogelu tangnefedd yr afon ar gyfer defnyddwyr rheolaidd (pobl leol ac ymwelwyr) a bywyd gwyllt.
    - **Yr Afon** - mae cyflwr yr afon wedi dirywio ers blynyddoedd. Hoffai'r gymuned weld y môr yn agored i bysgotwyr lleol a defnyddwyr yr afon beth bynnag fod cyflwr y llanw. Mae'n bosibl bydd angen carthu'r afon ond bydd angen mwy o wybodaeth gan astudiaeth TEEMI cyn gwneud unrhyw gynigion. Bydd angen cymryd gofal rhag achosi difrod amgylcheddol.
    - **Gwella mynediad i gychod ar yr afon** - creu glanfa pontŵn ger y pwll rhwydi ac ymestyn glanfa Glanteifion. Byddai hyn yn gwella mynediad i'r afon, yn atyniad i ymwelwyr ac yn gyfle busnes/gwaith.
    - **Sgiliau'r afon** - cymell pysgotwyr lleol i wneud arddangosiadau i bobl a phlant lleol ac ymwelwyr. Gellid gofyn i Gymdeithas Cadw'r Sán/pysgotwyr lleol i helpu gyda'r prosiect yma - fe wnaeth y pysgotwyr rhwydi sán arddangosiadau yn y gorffennol. Gellid eu cymell i wneud hynny eto gan wneud cyfraniad at eu ffioedd trwydded. Byddai modd trefnu arddangosiadau o bob math o sgiliau'n ymwneud â'r afon ar gyfer ysgolion, ymwelwyr a phobl leol - rhwydi sán, cyryglau, bad achub,

canŵio, pysgota plu ac ati, er mwyn addysgu pobl a chreu atyniad twristaidd. Ni fyddai'n costio llawer - gellid cymell pobl leol i rannu eu sgiliau.

- **Glanhau & Tacluso** - ffurfio patrôl afon i gadw golwg ar yr ardal, trefnu gwirfoddolwyr, a darparu offer codi, rhaffau, cychod ac ati ac arolygu'r gwaith. Gallai grwpiau gwirfoddol wneud gwaith ar y cyd â grŵp amgylcheddol Afon Teifi. Pwrpas y cynnig yma yw gwella golwg a defnydd o'r afon yn Llandudoch.

4. TWRISTIAETH, BUSNES A GWAITH

Sylwadau

Ym marn y gymuned mae'n bwysig iawn denu ymwelwyr i'r pentref e.e. wrth drefnu gwell arwyddion, taflenni, diweddaru'r wefan ac ati. Byddai hysbysfwrdd (mapiau), llwybrau cerdded a'r cylchlythyr yn helpu gyda hynny. Credir fod gosod gwell arwyddion i, ac yn, Llandudoch yn gwbl hanfodol.

Mae angen datblygu a hysbysebu atyniadau ar gyfer ymwelwyr. Dylid gwneud mwy o ddefnydd o lannau'r afon a'r cyfleoedd bydd hynny'n cynnig. Nid yw'n cael ei defnyddio'n ddigonol ar hyn o bryd a bydd angen i bob parti perthnasol gydweithio i geisio newid hynny. Cynigiwyd awgrymiadau megis llogi cychod ger glanfa Netpwl - y mae modd ei gyrraedd o Landudoch neu Aberteifi.

Mae potensial ar gyfer datblygu cylch crefftwyr ac artistiaid lleol gan sicrhau lleoliad ar eu cyfer i gynnal arddangosfa a gweithdai.

Mae'r gymuned yn credu fod trefnu gweithgareddau thematig yn bwysig, megis diwrnod canoloesol ac fe fyddai ffurfio Pwyllgor Digwyddiadau yn helpu i droi syniadau yn weithredoedd. Awgrymiadau eraill: gweithdai plant, cynnyrch lleol, llwybrau ysbrydion a chynhyrchiadau Shakespeare.

Cynigion

- **Ffurfio Pwyllgor Digwyddiadau** – i gyd-drefnu a hyrwyddo gweithgareddau lleol.
- **Diwrnod Canoloesol** – datblygu'r digwyddiad wrth gymell pobl leol i gyfrannu. Bydd angen cynyddu nifer yr arddangoswyr crefft a chynnyrch lleol, yn ogystal â mwy o arddangosfeydd a threfnu cyhoeddusrwydd ehangach.
- **Ailsefydlu'r Regata** - gan ymgorffori arddangosiadau cyryglau, profi prydau pysgod, arddangosiadau pysgota rhwydi sán, adeiladu cychod ac ati. Byddai'n helpu i greu gwaith ac yn symbylu'r economi.
- **Carnifal Llandudoch** – mae pobl leol am barhau i gynnal y carnifal ond mae angen mwy o gymorth. Eleni fydd y 25^{ain} carnifal.
- **Cynnyrch lleol** – mae diddordeb mewn hyrwyddo crefftau a chynnyrch lleol ac ymchwilio i'r dichonolrwydd o sefydlu marchnad crefftau/cynnyrch gyda chysylltiadau â digwyddiadau lleol megis y Diwrnod Canoloesol. Efallai gellid defnyddio Maes Parcio Webley fel lleoliad. Bydd rhaid dangos ymrwymiad jogel ond nid yw'n amhosibl. Byddai angen trafod â chynhyrchwyr lleol ynghyd ag 'enwau' cyfarwydd.
- **Cylch Crefftwyr ac Artistiaid Lleol -** cefnogi'r datblygiad a chwilio am leoliad posib

- **Datblygu cyfres o Weithdai Drama** yn yr haf ar gyfer pobl ifanc, yn seiliedig ar fythau a chwedlau'r ardal. Gellid eu cyd-drefnu a'u cynnwys fel rhan o'r Diwrnod Canoloesol.
- **Arwyddion brown** - cyflwyno cais i osod arwyddion yn cyfeirio pobl at y pentref, a rhai o fewn Llandudoch.
- **Byrddau dehongli "Rydych Yma** (fel rhai Cilgerran) - efallai o dan do yn y maes parcio. Cynnwys mapiau a llwybrau cerdded. Nodi ble mae rhagor o wybodaeth i'w gael yn y pentref ar wahanol safleoedd. Ail safle posib ym maes parcio Traeth Poppit.
- **Atyniadau Twristaidd** - hyrwyddo datblygiad yr ystod o weithgareddau twristaidd yn y gymuned, yn arbennig pan fo'r tywydd yn wael - er enghraifft y prosiect Canolfan Ymwelwyr y Coetiws.
- **Llwybrau bywyd gwyllt** - rhaglenni haf a gaeaf. Byddai trefnu teithiau bywyd gwyllt gydag arbenigwyr lleol yn tywys yn atyniad sylweddol i dwristiaid. Mae llawer o haneswyr lleol a gwyddonwyr yn y gymuned a fedrent efallai gynnig peth o'u hamser, un ai'n rheolaidd neu trwy eu gwahodd neu o ran ambell ddigwyddiad nawr ac yn y man.
- **Llwybrau Twristaidd** – eu hymestyn i gynnwys llwybrau 'treftadaeth/natur/ysbrydion" gan nodi amser/hyd.
- **Datblygu'r afon** - mae'r gymuned yn gwerthfawrogi'r afon yn nhermau cymdeithasol, hamdden, amgylcheddol ac economaidd. Mae symbylu gweithgareddau hwylio a defnydd o gychod a darparu ystod eang o weithgareddau hamdden ar hyd yr afon yn cael ei weld o'r pwys economaidd mwyaf. Dylai'r afon fod yn atyniad twristiaeth sylweddol. Dyma'r datblygiad unigol pwysicaf oll y dymuna cymuned Llandudoch ei weld. Byddai'n ei gwneud yn bosib i ddatblygu cyfleuster llogi cychod ac yn gwella mynediad i gychod rhwng Aberteifi a Llandudoch. Mae yna bosibilrwydd, petai grantiau yn dod i'r fei, gallai pysgota 'cynaladwy' fod yn atyniad i dwristiaid yn ogystal â bod yn fodd o ddarparu gwaith. Gallai hynny symbylu'r galw am wasanaethau morwriaethol. Gallai darparu dŵr/tanwydd yn y fan hyn hefyd wasanaethu pysgotwyr a chychod lleol. Ar hyn o bryd nid oes darpariaeth dŵr neu danwydd rhwng Aberystwyth ac Abergwaun. Byddai'n cymell cychod i alw heibio ac i ymweld â'r pentref am fwyd ac adloniant. Mae'r mudiadau a'r awdurdodau perthnasol yn cydweithio i geisio gwireddu hynny.
- **Pecyn croeso ar gyfer newydd ddyfodiaid** - awgrymwyd trefnu "Pecyn Croeso/Gwybodaeth" ar gyfer trigolion newydd ac ymwelwyr
- **Llefydd G&B a Lletyau –** byddai rhaid ymateb i unrhyw gynnydd mewn galw.

5. TRAFNIDIAETH & FFYRDD

Sylwadau

Mae'r trigolion yn cytuno fod cynllun i arafu traffig yn angenrheidiol er mwyn diogelu pobl leol ac ymwelwyr, a hefyd i wella'r amgylchedd yn gyffredinol. Gellid cyflwyno'r math yma o gynllun yn Stryd Peilot a'r Stryd Fawr, gyda mesurau i arafu trafnidiaeth trwy'r pentref cyfan - yn arbennig ar yr heol o Aberteifi ble mae'n dod i mewn i'r pentref, ac ar y bryn wrth fynd mas o'r pentref o Lanteifion i Poppit. Mae parcio ar ochr heolydd cul yn beryglus ac yn gorfodi ceir i wyro i lwybr ceir sy'n dod atynt. Rhaid sefydlu meysydd parcio eraill ac ymestyn y llinellau melyn ar hyd y mannau mwyaf peryglus.

Cynigion

- **Ymchwilio cynllun i arafu traffig**
- **Ymchwilio i'r posibilrwydd o drefnu bws Cymunedol**
- **Clustnodi safleoedd parcio oddi ar yr heol**
- **Palmentydd** – mae angen palmant cyflawn ar hyd y ffordd o Landudoch i Aberteifi.
- **Llwybrau seiclo** - ymchwilio i'r posibilrwydd o sefydlu llwybrau seiclo
-
- **Gwneud cais am orfodaeth heddlu** - o ran cyflymdra trafnidiaeth